



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Polisi Amgylchedd Dysgu (VLE)

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available
in Welsh and English**

Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	3
2	Diben	3
2.2	Buddion	3
3	Cwmpas.....	4
4	Polisi	4
4.1	Mynediad at y gwasanaeth	4
4.2	Deunyddiau ac adnoddau cwrs.....	5
4.3	Cyfrifoldebau Amgylchedd Dysgu Rhithwir	6
4.4	Diogelu data a phreifatrwydd	7
4.5	Hyfforddiant a chymorth	7
4.6	Technegol	8
5	Monitro.....	9
6	Camddefnyddio Polisi.....	10
7	Dolenni i bolisïau/gweithdrefnau eraill.....	10
8	Rheoli fersiwn y ddogfen	10

1 Cyflwyniad

Ymrwymiad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) i ragoriaeth academiaidd yw ein hymroddiad i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog, deinameg i fyfyrwyr. Gyda'r defnydd cynyddol o dechnoleg fel arf i gyflwyno deunyddiau dysgu o ansawdd uchel, mae'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) yn gonglfaen wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer twf addysgol ac archwilio.

Mae'r polisi hwn yn tanlinellu ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd lle mae amgylchedd dysgu rhithwir yn gweithredu fel catalydd ar gyfer dysgu, gan gwmpasu dulliau addysgu ar-lein, cyfunol ac wyneb yn wyneb. Pwrpas y ddogfen hon yw mynegi fframwaith clir sy'n hyrwyddo defnydd effeithiol a chynhwysol o'r amgylchedd dysgu rhithwir, gan alinio â chenhadaeth y Brifysgol i rymuso myfyrwyr gyda'r offer a'r adnoddau sydd eu hangen i lwyddo.

Drwy ymgysylltu'n weithredol â'r amgylchedd dysgu rhithwir, mae ein staff academiaidd yn chwarae rôl ganolog wrth lunio'r dirwedd addysgol. Mae'r polisi hwn yn annog eu cyfranogiad gan gynnal cysondeb drwy gadw at Safonau Sylfaenol Amgylchedd Dysgu Rhithwir a Arfer Da Addysgu a Dysgu Digidol. Trwy'r canllawiau hyn, ein nod yw ehangu ansawdd y cynnwys a ddarperir, meithrin profiadau dysgu rhyngweithiol, a sicrhau bod pob myfyriwr yn elwa o'r gorau sydd gan addysg â chymorth technoleg i'w cynnig.

2 Diben

- 2.1.1 2.1.1. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) wedi ymrwymo i ddarparu myfyrwyr â chyfleoedd i ddysgu drwy'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am raglenni a modiwlau, adnoddau dysgu a gweithgareddau ar gyfer dysgu.
- 2.1.2 Diben y polisi yw hyrwyddo defnydd effeithiol a chynhwysol o'r amgylchedd dysgu rhithwir ar draws pob dull o ddysgu, gan gynnwys ar-lein, cyfun ac wyneb yn wyneb.
- 2.1.3 Mae'r polisi wedi'i gynllunio i annog staff i ymgysylltu'n weithredol â'r amgylchedd dysgu rhithwir gan sicrhau cysondeb a chadw at set o egwyddorion hanfodol fel yr amlinellir yn [Safonau Sylfaenol Amgylchedd Dysgu Rhithwir ac Arfer Da Addysgu a Dysgu Digidol](#).
- 2.1.4 Ymhellach, mae'n ceisio diogelu hawliau a buddiannau'r holl randdeiliaid drwy integreiddio polisïau yn ymwneud â hawlfraint, eiddo deallusol, diogelu data, cydymffurfiaeth â GDPR a Safonau'r Gymraeg.

2.2 Buddion

- 2.2.1 Mae'r polisi hwn wedi'i lunio gyda'r prif nod o warantu bod pob myfyriwr cofrestredig yn cael mynediad ar-lein i wybodaeth am y rhaglen ac adnoddau addysgol yn unol â safon sylfaenol.
- 2.2.2 Ei amcan craidd yw grymuso addysgwyr i ddyrchafu eu dulliau addysgegol, meithrin rhagoriaeth academiaidd ac arloesedd mewn addysgu a dysgu.

- 2.2.3 Trwy annog defnydd helaeth o'r amgylchedd dysgu rhithwir, mae'r polisi hwn yn caniatáu dull "myfyrwyr fel partneriaid" gan sicrhau bod gan fyfyrwyr y gallu i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain a dod yn fwy annibynnol yn eu hastudiaethau
- 2.2.4 Fodd bynnag, mae amgylchedd dysgu rhithwir wedi'i optimeiddio yn creu amgylchedd lle gall yr holl fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys myfyrwyr aeddfed, dysgwyr rhan amser, a myfyrwyr rhyngwladol ymgysylltu a dysgu gyda'i gilydd, gan feithrin cymuned dysgu amrywiol a chynhwysol.

3 Cwmpas

- 3.1.1 Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol sawl enghraifft o'r amgylchedd dysgu rhithwir, sydd wedi'i anelu at wahanol gynulleidfaoedd o fewn cyrraedd y Brifysgol, gan sicrhau bod cynnwys perthnasol pob un yn addas i'r diben. Mae'r rhain yn cynnwys enghraifft fewnol sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, addysgu a dysgu, ac enghraifft allanol/masnachol.
- 3.1.2 Mae'r amgylchedd dysgu rhithwir yn gweithredu fel platfform digidol canolog ar gyfer creu, cyflwyno a rheoli cynnwys cwrs, adnoddau dysgu, gweithgareddau, cyfathrebu a chydweithio. Mae'r amgylchedd dysgu rhithwir yn cydfodoli ochr yn ochr ag offer dysgu digidol i gefnogi addysgu, dysgu, asesu a phrofiad y myfyriwr.
- 3.1.3 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff y brifysgol, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol eraill sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd o addysgu, dysgu neu dasgau gweinyddol sy'n defnyddio'r amgylchedd dysgu rhithwir ac yn amlinellu'r canllawiau a'r disgwyliadau ar gyfer y defnydd o'r amgylchedd dysgu rhithwir i sicrhau profiad dysgu cyson ac effeithiol ar draws y Brifysgol.
- 3.1.4 Defnyddir yr amgylchedd dysgu rhithwir yn bennaf i gefnogi addysgu a dysgu, ond mae hefyd yn cynnig offer ar-lein a chyfleusterau y gellir eu defnyddio ar gyfer dibenion eraill, megis hyfforddiant staff, prosesau gweinyddol a rhannu ffeiliau'n ddiogel. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall fod systemau addas eraill ar gael ar gyfer y gweithgareddau hyn. Cysylltwch â'r tîm amgylchedd dysgu rhithwir am gymorth wrth wneud penderfyniadau.

4 Polisi

4.1 Mynediad at y gwasanaeth

Mae amgylchedd dysgu rhithwir ar gael o unrhyw ddyfais i ddefnyddwyr gyda chyfrif TG y Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i sicrhau bod yr amgylchedd dysgu rhithwir ar gael 24 y dydd. Fodd bynnag, gellir atal mynediad i'r safle dros dro rhag ofn y bydd y system yn methu, yn cael ei chynnal a'i chadw neu'i hatgyweirio, neu o ganlyniad i resymau y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol. Rhennir gwybodaeth am faterion neu waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ar dudalen we [Desg Wasanaeth TG](#) mewn modd amserol.

- 4.1.1 **Mynediad staff:** Bydd gan bob aelod o staff gyda chyfrif cyfredol TG y Brifysgol fynediad i'r amgylchedd dysgu rhithwir. Rhoddir mynediad i gyrsiau i holl staff academiaidd a phroffesiynol PCYDDS sy'n ymwneud yn weithredol â chyflwyno neu gefnogi cyrsiau a modiwlau. Dylid gwneud ceisiadau i ganiatáu neu ddirymu mynediad

drwy e-bostio moodle@uwtsd.ac.uk neu drwy [Ddesg Gwasanaeth TG y Brifysgol](#). Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar dudalen we [Ddesg Gwasanaeth TG](#).

4.1.2 Mynediad myfyrwyr: Mae gan holl fyfyrwyr PCYDDS fynediad i'r amgylchedd dysgu rhithwir a deunyddiau cwrs perthnasol ar gyfer y modiwlau maent wedi'u gofrestru amdanynt drwy gydol eu hastudiaethau. Bydd y Brifysgol yn cefnogi'r mynediad awtomatig i fodiwlau perthnasol yn yr amgylchedd dysgu rhithwir yn seiliedig ar ddata cofrestru yn y system cofnodion myfyrwyr (SITS).

4.1.3 Modiwl E-ddysgu - Mynediad myfyrwyr: Bydd dysgwyr ar gyrsiau byr fel Micro-gymwysterau neu Gyrsiau Ar-lein Enfawr Agored (Mocs) yn cael mynediad drwy'r platfform e-ddysgu Moodle, [Dysgu Ar-lein yn PCYDDS](#) y gallant hunan gofrestru ar ei gyfer i'r cyrsiau sydd ar gael, gan felly gael mynediad at ddeunydd cyrsiau ac asesiadau.

4.1.4 Mynediad allanol: Gellir caniatáu mynediad allanol i'r amgylchedd dysgu rhithwir ar gyfer arholwyr allanol neu grwpiau penodol eraill er enghraifft, ar sail mynediad dros dro, gan ddefnyddio'r broses greu Cyfrif Addysg Entrepreneuriaidd (EE). Mae hyn yn caniatáu noddwyr neu gymeradwywyr i gael rheolaeth uniongyrchol dros y prosesau creu cyfrif ac adnewyddu drwy ryngwyneb sydd wedi'i mewnosod o fewn eu [tudalen lanio TSD](#).

4.1.5 Mynediad sefydliadau partner: Mae mynediad i'r amgylchedd dysgu rhithwir yn ddibynnol ar y cytundeb rhwng PCYDDS a'i sefydliadau partner, sy'n gallu amrywio ar sail pob achos.

4.2 Deunyddiau ac adnoddau cwrs

4.2.1 Mae'r cynnwys yn yr amgylchedd dysgu rhithwir yn cael ei greu yn bennaf gan aelodau unigol o staff, ac nid yw'n destun monitro rheolaidd. Fodd bynnag, gall staff o wasanaethau proffesiynol gael mynediad ac adolygu cynnwys ar gais gan staff a myfyrwyr er mwyn darparu cymorth a chyngor.

4.2.2 Mae cadw at [Safonau Amgylchedd Dysgu Rhithwir Sylfaenol](#) y Brifysgol yn orfodol i grewyr a golygyddion cyrsiau er mwyn darparu profiad cyson i fyfyrwyr ar draws yr holl gyrsiau. Mae'r safon drothwy hon yn nodi set sylfaenol o ofynion y mae'n rhaid i bob rhaglen/modiwl eu cael o ran presenoldeb amgylchedd dysgu rhithwir.

4.2.3 Lle bo'n bosibl, dylid defnyddio offer dysgu mewnol a chymorth prifysgol yn yr amgylchedd dysgu rhithwir; mae'r rhain yn cael eu ffafrio dros offer trydydd parti sydd ar gael yn allanol, lle mae nodweddion a gwasanaethau yn weddol debyg.

4.2.4 Perchnogaeth cynnwys: Mae perchnogaeth Deunyddiau Addysgu a Deunyddiau Academaidd eraill sy'n cael eu creu a'u rhannu drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir yn amodol ar [Bolisi Eiddo Deallusol](#) y Brifysgol.

4.2.5 Dolenni allanol: Gall gynnwys o fewn yr amgylchedd dysgu rhithwir gynnwys dolenni i safleoedd allanol. Nid yw'r Brifysgol yn gyfrifol am gynnwys y safleoedd hyn ac nid yw'n rhoi unrhyw sicrwydd y bydd y dolenni'n gweithio drwy'r amser. Ni ddylai unrhyw gyfeiriadau neu ddolenni o'r fath gael eu cymryd fel ardystiad gan y Brifysgol o wefannau, neu'r safbwyntiau a fynegir, neu'r gwasanaethau a ddarperir ar y safleoedd hyn.

4.2.6 Cydymffurfiaeth hygyrchedd: Mae cynnwys y cwrs yn cael ei greu gan aelodau unigol o staff y mae'n ofynnol iddynt gadw at Safonau Sylfaenol amgylchedd dysgu rhithwir sy'n gosod gofynion manwl ar gyfer cynnwys, yn ogystal â hyfforddiant a chymorth fel yr amlinellir yn [Adran 4.5](#).

4.2.7 Cydymffurfiaeth hawlfraint: Dylai'r holl staff a myfyrwyr gydymffurfio â hawliau hawlfraint a [Pholisi Hawlfraint](#) y Brifysgol wrth greu, lanlwytho neu gyrchu deunyddiau ar yr amgylchedd dysgu rhithwir. Gellir cyrchu canllawiau pellach drwy [Hwb Hawlfraint y Llyfrgell](#).

4.3 Cyfrifoldebau Amgylchedd Dysgu Rhithwir

4.3.1 Bydd y tîm amgylchedd dysgu rhithwir yn:

- ymdrechu i ddiweddarau'r amgylchedd dysgu rhithwir i'r fersiwn diweddaraf;
- ymrestru myfyrwyr newydd, a dileu cyn-fyfyrwyr ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd;
- archifo cynnwys cwrs o'r tair blynedd academiaidd ddiwethaf fel y gellir ei gyrchu gan staff a myfyrwyr i'w adolygu o fewn yr amgylchedd dysgu rhithwir;
- ymdrechu i amserlennu gwaith cynnal a chadw er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr, lle y bo'n ymarferol. Yn ogystal, bydd yn darparu defnyddwyr gyda diweddariadau a gwybodaeth amserol drwy dudalen we [Statws Gwasanaethau TG](#) a sianeli sefydliadol eraill lle y bo'n briodol.
- sicrhau bod y systemau amgylchedd dysgu rhithwir yn darparu hygyrchedd priodol yn unol â Datganiad Hygyrchedd Moodle PCYDDS. Mae hygyrchedd cynnwys cyrsiau penodol yn gyfrifoldeb y staff academiaidd. Mae PCYDDS wedi ymrwymo i gynhwysiant a hygyrchedd ac mae'n anelu at lefelau uchel o hygyrchedd i'n holl systemau gwybodaeth, gan gynnwys yr amgylchedd dysgu rhithwir.

4.3.2 Bydd myfyrwyr yn:

- sicrhau bod deunyddiau cwrs ar yr amgylchedd dysgu rhithwir yn gywir, cyfredol ac yn berthnasol i ddeilliannau dysgu'r modiwl;
- sicrhau bod y cynnwys sydd wedi'i greu ar yr amgylchedd dysgu rhithwir yn hygyrch a threfnu darpariaeth fformatau amgen yn ôl yr angen.
- hwyluso trafodaethau ar-lein, asesiadau ac adborth drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir i ehangu'r profiad dysgu.
- monitro a chymedroli trafodaethau a fforymau ar-lein i gynnal amgylchedd dysgu parchus a chynhwysol.
- glynu at Safonau Sylfaenol yr amgylchedd dysgu rhithwir gan ddarparu profiad cyson, cynhwysol a hygyrch i fyfyrwyr;
- sicrhau bod adnoddau cysylltiedig ar gael ac yn hygyrch. Gellir dod o hyd i gyngor ar ddolenni Adnoddau Ar-lein yma: [Rhestrau Adnoddau ar-lein](#);
- cydymffurfio â chyfraith hawlfraint a [Pholisi Hawlfraint](#) y Brifysgol.
- cadw at 'Safonau'r Iaith Gymraeg' wrth ddylunio cynnwys cwrs ar yr amgylchedd dysgu rhithwir ar gyfer cyrsiau sy'n cynnig cyflwyniad drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall Tîm yr Iaith Gymraeg ddarparu mwy o gyngor a chymorth. iaithgymraeg@pcydds.ac.uk.
- dylech roi gwybod am unrhyw faterion technegol neu bryderon yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu rhithwir i [Ddesg Gwasanaeth TG y Brifysgol](#).

4.3.3 Bydd myfyrwyr yn:

- parchu hawliau eiddo deallusol eraill a pheidio â rhannu neu ddosbarthu deunyddiau hawlfraint heb ganiatâd priodol;
- ymgysylltu'n weithredol yn y gweithgareddau dysgu ar-lein a thrafodaethau a hwylusir drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir yn unol â'r [Polisi Ymgysylltu](#);
- defnyddio'r amgylchedd dysgu rhithwir yn gyfrifol a chadw at [bolisi cod ymddygiad myfyrwyr](#);
- rhoi gwybod am unrhyw faterion technegol neu bryderon yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu rhithwir yn brydlon i [Ddesg Gwasanaeth TG y Brifysgol](#).

4.4 Diogelu data a phreifatrwydd

- 4.4.1 Er y bydd y tîm Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn sicrhau bod y nodweddion preifatrwydd sydd wedi'u hymgorffori yn yr amgylchedd dysgu rhithwir yn cydymffurfio â GDPR, cyfrifoldeb yr aelodau staff sy'n rheoli pob cwrs yw sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif a rennir ar yr amgylchedd dysgu rhithwir yn cael ei diogelu, yn unol â gofynion y Brifysgol, polisi diogelu data a hysbysiad preifatrwydd myfyrwyr.
- 4.4.2 Bydd gan bob aelod o staff sydd wedi cofrestru ar gwrs fel athrawon golygu neu staff cymorth fynediad at yr holl ddata ar y cwrs. Dylid cyfyngu mynediad at ddata sensitif i bersonél awdurdodedig yn unig.
- 4.4.3 Mae pob aelod o staff a myfyriwr yn gyfrifol am ddiogelwch a defnydd eu hen ddefnyddiwr a'u cyfrinair yn unol â'r [Polisi Defnydd Derbyniol Technoleg Gwybodaeth](#).
- 4.4.4 Cedwir data personol yn ddiogel ac yn unol â Pholisïau [Diogelu Data](#) a [Chadw Data'r Brifysgol](#). Cedwir gwybodaeth ar sut y defnyddir data personol yn y [Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr](#).
- 4.4.5 Nid yw'r Brifysgol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am bolisïau preifatrwydd unrhyw wefannau cysylltiedig.
- 4.4.6 Gellir cael gwared ar ddata, cynnwys a defnyddwyr ar gais drwy gysylltu â'r [Tîm Amgylchedd Dysgu Rhithwir](#).
- 4.4.7 Mae'n ofynnol i aelodau staff gwblhau'r modiwlau Diogelu Data ac Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Gwybodaeth sydd ar yr amgylchedd dysgu rhithwir:
- Modiwl Diogelu Data E-ddysgu: [Cwrs Diogelu Data](#)
 - Modiwl Ymwybyddiaeth a Diogelwch Gwybodaeth: [Cwrs: Hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Diogelwch Gwybodaeth](#)

4.5 Hyfforddiant a chymorth

- 4.5.1 Hyfforddiant staff: Mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant a chymorth i aelodau o staff ar ddefnyddio'r amgylchedd dysgu rhithwir ar gyfer cyflwyno a rheoli cyrsiau.
- 4.5.2 Hyfforddiant hygyrchedd: Mae e-ddysgu gorfodol ar sut i greu cynnwys hygyrch ar gael ar yr amgylchedd dysgu rhithwir: [Cwrs: Hygyrchedd](#)
- 4.5.3 Darperir hyfforddiant amgylchedd dysgu rhithwir yn ganolog gan y tîm amgylchedd dysgu rhithwir, gan gefnogi defnyddwyr gydag opsiynau hyfforddi dechreuwyr, canolig ac uwch. Dylid anfon ceisiadau at moodle@uwtsd.ac.uk.

- 4.5.4 Gellir cael mynediad at Addysgeg Ddigidol a hyfforddiant dylunio cyrsiau drwy'r tîm Dysgu Digidol sy'n gallu cefnogi ac arwain staff drwy ddatblygu defnyddiau addysgol, dylunio a chyflwyno cynnwys drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir. Mae'n cynnwys elfennau ar sut i ddylunio eich presenoldeb ar-lein ar yr amgylchedd dysgu rhithwir ac adnabod offer cyfathrebu, ymgysylltu, rhyngweithiol, cydweithredol ac asesu priodol. Dylid anfon ceisiadau at DysguDigidol@pcydds.ac.uk.
- 4.5.5 Gellir cael mynediad at gymorth sgiliau digidol pellach drwy'r tîm Sgiliau Digidol sy'n gallu darparu hyfforddiant a chymorth 1:1 wrth ddefnyddio offer digidol penodol: SgiliauDigidol@pcydds.ac.uk.
- 4.5.6 Cymorth i fyfyrwyr:
- 4.5.6.1 Bydd myfyrwyr yn cael mynediad at diwtorialau ac adnoddau i'w helpu i lywio a defnyddio'r amgylchedd dysgu rhithwir yn effeithlon.
- 4.5.6.2 Mae canllawiau fideo ac adnoddau ar gael drwy'r [GanolfanDdigidol: Adnoddau Moodle a Turnitin](#).
- 4.5.6.3 Gellir cael mynediad at hyfforddiant a chymorth drwy'r tîm Sgiliau Digidol. Cysylltwch â SgiliauDigidol@pcydds.ac.uk i drefnu sesiwn 1:1 neu sesiwn hyfforddi.
- 4.5.6.4 Os ydych chi'n profi unrhyw faterion technegol neu bryderon yn ymwneud â'r amgylchedd dysgu rhithwir, a wnewch chi roi gwybod i'r [Ddesg Wasanaeth TG](#).

4.6 Technegol

- 4.6.1 Diweddariadau: Mae diweddariadau i'r amgylchedd dysgu rhithwir yn cael eu rhyddhau'n rheolaidd gan y Gymuned Datblygu Moodle fel y diffinnir yn y [ddogfennaeth Rhyddhau Moodle](#). Mae mân uwchraddio fersiynau ac atgyweiriadau diogelwch yn cael eu rhyddhau bob dau fis a phrif fersiynau yn cael eu rhyddhau bob chwe mis.

Gan fod datblygiadau'r integreiddiadau trydydd parti yn llusgo y tu ôl i'r prif fersiynau ac yn aml yn achosi problemau cydnawsedd, ein nod yw cynnal cynhyrchiad Moodle sydd un brif fersiwn lawn y tu ôl i'r fersiwn fwyaf diweddar. Mae hyn yn darparu'r cyfaddawd gorau rhwng ymgorffori'r nodweddion mwyaf diweddar, gan gynnal sefydlogrwydd a chydawnsedd. Ein nod yw diweddarau Moodle unwaith y flwyddyn, ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd i'r prif fersiwn nesaf ond, lle mae namau neu broblemau arwyddocaol mewn fersiwn gyfredol, efallai y bydd angen i ni wneud mân ddiweddariadau rhwng y prif fersiynau.

- 4.6.2 Proses Diwedd y Flwyddyn: Defnyddir proses diwedd blwyddyn wrth ddiweddarau'r system ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd. Mae'n cynnwys:
- cymryd 'ciplun' wrth gefn o'r system fyw bresennol fel y mae ar 31 Awst a'i osod fel 'Archif' Moodle o'r flwyddyn academiaidd flaenorol i staff a myfyrwyr eu cyrchu at ddibenion cyfeiriol.
 - galluogi cofrestriad myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd fel eu bod yn cael eu bwydo o'r system cofnodion myfyrwyr wrth iddynt gofrestru ar-lein, neu fod eu cofrestriadau'n cael eu cofnodi â llaw gan Weinyddwyr yr Athrofeydd fel y bo'n briodol ar gyfer eu cyrsiau.

- galluogi'r swyddogaeth fyd-eang ym Moddle sy'n tynnu cofrestriadau o dudalennau (cwrs a modiwl) pan nad ydynt bellach yn astudio ar y cyrsiau neu'r modiwlau yn y System Cofnodion Myfyrwyr. Mae hyn yn tynnu pob modiwl sydd wedi'u cwblhau o broffiliau'r myfyrwyr ym Moodle, gan ganiatáu eu cofrestriadau ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd i gael eu bwydo i mewn.

4.6.3 Bydd cyfathrebiadau diweddariadau arfaethedig yn sicrhau bod staff a myfyrwyr yn ymwybodol o ddiweddariadau system Moodle sydd wedi'u hamserlenni, gan leihau unrhyw amhariadau posibl a sicrhau trosglwyddiad esmwyth.

Negeseuon allweddol:

- Pwysigrwydd y diweddariad wrth ehangu'r profiad Moodle i staff a myfyrwyr.
- Cyfarwyddiadau clir ar sut i baratoi ar gyfer y diweddariad i leihau unrhyw aflonyddwch.
- Anogaeth i gysylltu â'r Ddesg Gwasanaeth TG am unrhyw gymorth neu gwestiynau yn ymwneud â'r broses ddiweddarau.

4.6.4 Sianeli cyfathrebu

- **Safle Adnoddau Digidol Teams:**
 - Postio diweddariadau rheolaidd ynghylch yr amserlen system diweddarau sydd ar ddod.
 - Cynnwys crynodeb fer o'r prif newidiadau a'r gwelliannau a fydd yn cael eu gweithredu.
 - Annog staff a myfyrwyr i ymweld â'r dudalen yn rheolaidd ar gyfer yr wybodaeth ddiweddaraf.
- **Bwletin/Mewnrwyd Staff:**
 - Cynnwys hysbysiadau penodol ynghylch y diweddariad system Moodle sydd ar ddod yn y bwletin staff a/neu ar y fewnrwyd.
 - Darparu amserlen fanwl ar gyfer y broses ddiweddarau ac unrhyw amser segur a ragwelir.
 - Amlinellu'r buddion a'r newidiadau posibl y mae angen i staff baratoi ar eu cyfer.
- **Tudalen Gartref HWB/Moodle Myfyrwyr:**
 - Diweddarau'r HWB myfyrwyr gyda hysbysiadau ynghylch y diweddariad system Moodle.
 - Darparu esboniad wedi'i symleiddio o'r newidiadau y gall myfyrwyr eu disgwyl.
 - Pwysleisio pwysigrwydd paratoi ar gyfer diweddariad drwy arbed unrhyw ddata neu waith cwrs.

5 Monitro

- 5.1.1 Mae'r polisi yn destun adolygiad cyfnodol o fewn y Bwrdd Addysgu a Dysgu, er mwyn ei alinio â nodau'r Brifysgol, arferion gorau a chwrdd â'r gofynion am addysgu a dysgu.
- 5.1.2 Diffinnir y rhain gan y Strategaeth Ehangu Addysgu a Dysgu 2022-2026, Strategaeth Ddigidol 2021-2023 a 2024-26, a'r Arfer Da Addysgu a Dysgu Digidol.

- 5.1.3 Drwy gadw at y safonau hyn, gall y Brifysgol sicrhau y diffinnir yr amgylchedd dysgu rhithwir i wella perfformiad myfyrwyr, boddhad, deilliannau dysgu a phrofiad cyffredinol myfyrwyr.

6 Camddefnyddio Polisi

Bydd Gwasanaethau Digidol yn codi materion camddefnyddio polisi gyda'r rheolwyr llinell a'r uwch dîm rheoli. Lle y bo'n briodol, gall defnyddwyr fod yn destun gweithdrefnau disgyblu ffurfiol.

7 Dolenni i bolisiâu/gweithdrefnau eraill

Dylid defnyddio'r polisi hwn yn unol â nifer o strategaethau, polisiâu a rheoliadau'r Brifysgol, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

- [Polisi Hawlfraint](#)
- [Polisi Diogelu Data](#)
- [Diogelu Data: Polisi mewn perthynas â chategoriâu arbennig o ddata personol \(a data euogfarnau troseddol\)](#)
- [Polisi Llywodraethu Data](#)
- [Polisi Ymgysylltu](#)
- [Polisi Eiddo Deallusol](#)
- [Polisi Defnydd Derbyniol TG](#)
- [Polisi Rhestr Adnoddau Ar-lein](#)
- [Polisi Rheoli Cofnodion](#)
- [Safonau'r Iaith Gymraeg](#)

Awdur(on) y ddogfen:

Chris Rees

Teitl Swydd: Pennaeth Gweithredol Creadigrwydd a Dysgu Digidol

8 Rheoli fersiwn y ddogfen

Rhif y Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad y newid:
1.1	Dolenni a theitlau polisi wedi'u diweddarau	Chris Rees	05/06/2026

Cymeradwyo

Bydd y polisi'n cael ei ystyried yn ffurfiol a'i gymeradwyo yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd.

Os yw'r polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r cychwyn cyntaf i ganfod a oes angen ymgynghori yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cam mwyaf priodol i ymgynghori â'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ac a oes angen cymeradwyaeth gan y Cyngor

Rhaid i'r canlynol ddod gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:

- [Asesiad Effaith Cydraddoldeb](#)
- [Asesiad Effaith Sefydliadol](#)
- [Asesiad Effaith Data a Diogelu](#)

Cyn ei chyflwyno i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio yn llenwi'r adran isod.

I'w gwblhau gan ysgrifennydd y pwyllgor

Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:

Mae Asesiad Effaith Sefydliadol wedi'i gwblhau ☒

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau ☒

Mae Asesiad Effaith Diogelu wedi'i gwblhau ☒

Materion sydd angen eu hystyried gan y pwyllgor cymeradwyo:



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David